Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

**HYSBYSIAD O BENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD 20 MAI 2024.**

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A GYNHALIWYD DDYDD LLUN 20 MAI 2024 AM 5.30pm**

**YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr: E.M. Aldworth, C. Bishop, M. Chacon-Dawson, C. Gordon (Cadeirydd), A. Leonard, B. Miles (Is-gadeirydd), J. Simmonds, J Winslade a K. Woodland.

Aelodau'r Cabinet: Y Cynghorwyr C. Andrews (Addysg a Chymunedau) ac E. Forehead (Gofal Cymdeithasol).

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau Oedolion), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol Gwella Ysgolion), A. West (Rheolwr Gwasanaethau Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol), C Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorwyr S. Morgan a J. Pritchard, ac E. Pryce (Gwasanaeth Cyflawni Addysg), D. Harteveld (Gwasanaeth Cyflawni Addysg), S. Speedy (Gwasanaeth Cyflawni Addysg), a'r Aelod Cyfetholedig Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg).

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

| EITEM | PWNC | PENDERFYNIAD | PLEIDLAIS |
|---|---|---|---|
| 1. | Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr), y Cynghorwyr A. Broughton-Pettit, P. Cook, D. Cushing, M. Evans, A. Farina-Childs, T. Heron T. Parry, J. Roberts, ac S. Skivens. Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr), Mrs P. Ireland (Yr Undeb Addysg Cenedlaethol), Mrs K. Cole (Yr Undeb Addysg Cenedlaethol), a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).<br><br>Nodwyd y cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd T. Parry (Cadeirydd), ac oherwydd problemau technegol a brofwyd gan y Cynghorydd B. Miles (Is-Gadeirydd), cynigiwyd ac eiliwyd, a chefnogwyd gan y mwyafrif oedd yn bresennol drwy godi dwylo, bod y Cynghorydd C. Gordon yn llywyddu fel Cadeirydd y cyfarfod hwn. | Ddim yn berthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Wrth ymddiheuro am absenoldeb, gofynnodd y Cynghorydd J. Roberts i'r cyfarfod gael ei gofnodi, oherwydd nad oedd yn gallu ymuno yn sgil problemau technegol. | |
| 2. | Datganiadau o fuddiant. | Fe wnaeth y Cynghorydd canlynol ddatgan buddiant personol mewn perthynas ag Eitem 10 ar yr agenda. Ffedereiddio Ysgolion.<br><br>Y Cynghorydd C Bishop gan ei bod yn llywodraethwr ysgol yn un o'r ysgolion yr effeithir arnyn nhw.<br><br>Gan fod y buddiant yn un personol yn unig, nid oedd yn ofynnol iddi adael y cyfarfod ac roedd modd iddi gymryd rhan lawn yn y ddadl. | Ddim yn berthnasol |
| 3. | Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024. | PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024 fel cofnod cywir. | 8 o blaid<br>0 yn erbyn<br>1 Ymatal |
| 4. | Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol arbennig a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024. | PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol arbennig a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 fel cofnod cywir. | 7 o blaid<br>0 yn erbyn<br>1 Ymatal |
| 5. | Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ddim yn berthnasol |
| 6. | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.<br><br>PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar wefan y Cyngor. | Unfrydol |
| 7. | Cael ac ystyried yr adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr Agenda. | Ni chafodd unrhyw un o'r adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod. | Ddim yn berthnasol |
| 8. | Trosolwg o sut mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cynorthwyo Awdurdod Lleol Caerffili i gyflawni ei Swyddogaeth<br>Gwella Ysgolion. | Ar ôl ystyried a chraffu ar yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol gwestiynau a chynigiodd farn am y trefniadau presennol. | Dim angen pleidlais. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9. | Crynodeb o Ganlyniadau Arolygon Estyn o dan y Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd –<br>mis Ionawr 2022 hyd at fis Mawrth 2024. | Ar ôl ystyried a chraffu ar yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol gwestiynau a chynigiodd farn am ddeilliannau cyffredinol ysgolion. | Dim angen pleidlais. |
| 10. | Ffedereiddio Ysgolion. | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms.<br><br>ARGYMHELLWYD i'r Cabinet: -<br><br>Symud ymlaen i ymgynghori, mewn partneriaeth â phob Corff Llywodraethol, mewn perthynas â Ffedereiddio Ysgol Fabanod Cwmaber ac Ysgol Iau Cwmaber o ddechrau tymor mis Ionawr 2025. | Unfrydol |
| 11. | Diogelu. | Ar ôl ystyried yr adroddiad, nododd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol gynnwys yr adroddiad. | Dim angen pleidlais. |

**Dosbarthu:**

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Iau 30 Mai 2024.